CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 8fed o Chwefror 2021 am 6.30y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

YN BRESENNOL : Cyng. Margaret A. Thomas - Cadeirydd
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Terry Jones
Cyng. Jamie Jones
Cyng. John Lee
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Non W. Parry
Cyng. Christine Roberts.
Cyng. Richard Parry – *Cael trafferth Cysylltu i Linc TEAMS*

HEFYD YN BRESENNOL : Cyng. Dylan W. Rees - Cynghorydd Sir
Mr. H. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymhorthydd Clerigol.

20/070 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Bob Parry - Cynghorydd Sir

20/071 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

20/072 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolwyr.
Cadeirydd yn adrodd fod Swyddogion yr Heddlu yn brysur yn ystod y pandemic COVID-19 a dim cysylltiad wedi bod gyda'r Swyddfa yn yr wythnosau diwethaf.

20/073 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 11.01.2021**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim materion yn codi wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.

Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw at Eitem 20/062.1 o'r Cofnodion uchod - Ehangu'r Fynwent ac yn datgan fod penderfyniad wedi ei wneud, sef i ddilyn dau Opsiwn, a bod hyn ddim wedi ei nodi yn glir yn y Cofnodion, fel a ganlyn :

- Ail-edrych ar y Cais i Gyfoeth Naturiol Cymru gydag ymgynghoriad pellach efo Cwmni e-geo Solutions; Cyng. Victor Hughes yn adrodd ymhellach ar hyn o dan Eitem 20/085 o'r Rhaglen.
- Prynu Tir : Gwneud Cais i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo benthyciad ariannol i sicrhau fod y Cyngor Tref yn gallu rhoi cynnig ar dir i greu Mynwent Newydd.

Yn dilyn yr uchod, Cyng. Ieuan G. Davies yn Cynnig a Cyng. Christine Roberts yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion.

20/074 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 11.01.2021**
Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS. Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod.

20/075 **I YSTYRIED ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 04.02.2021**

Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod ac i ystyried a phenderfynu ar yr argymhellion isod, fel a ganlyn :

1 **I Gadarnhau Ffigwr y Precept 2021/2022 –** Codi'r Precept 3.5% ar gyfer y flwyddyn 2021/2022 – **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i dderbyn y Codiad 3.5%.

2 **Cyfraniadau 2020/2021 –** I ystyried y Rhestr isod :

- Hospice Tŷ Gobaith £ 50.00
- Menter Cymdeithasol Llangefni £100.00
- Bwyd Da Môn £100.00
- Ambiwlans Awyr Cymru i Blant £ 50.00
- Gorsaf Môn FM £100.00
- Radio Ysbyty Gwynedd £ 50.00
- Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned – Llangefni £100.00
- RELATE Cymru £ 50.00 – **Cyfanswm £600.00**
- Calonnau Cymru DIM
- Eisteddfod Llangollen 2021 DIM

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn y Rhestr uchod.

3 **I Gynyddu Ffioedd y Fynwent 2021/2022 -**Argymell cynnydd o £10.00 ar gyfer bob Eitem. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i dderbyn y cynnydd uchod o 1af Ebrill 2021.

4 **Cymeradwyo Polisi Arian Parod Cyngor Tref Llangefni** – Yn dilyn Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd, mae angen ysgrifennu protocol gweithredu a monitro'r Arian Parod. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** derbyn y Polisi Arian Parod.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

20/076 **CYNLLUNIO**

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO MIS IONAWR 2021 -** Derbyn - Dim Trafodaeth.

20/077 **I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER**

1 **Llu Awyr Brenhinol y Fali – Llythyr 02.12.2020 –** Cadeirydd yn arwain yr Aelodau trwy gynnwys y llythyr a dderbyniwyd gan Group Captain A.D. Tuck, yn cyflwyno ei hun i'w swydd newydd. Cadeirydd yn gobeithio cael cyfle i weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol.

20/078 **MATERION YN CODI GAN AELODAU**

Clerc yn cadarnhau fod dim materion wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa. **Derbyn.**

20/079 **ADRODDIAD Y CLERC**

1 **Diweddariad ar Ehangu'r Fynwent** - Clerc yn adrodd, yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn 11.01.2021, i roi caniatâd iddo gyflwyno Cais i Lywodraeth Cymru, i gymeradwyo benthyciad ariannol i sicrhau fod y Cyngor Tref yn gallu rhoi cynnig ar dir i greu Mynwent Newydd. Clerc yn cadarnhau fod Cynllun Busnes wedi eu paratoi a'i anfon ymlaen.
Clerc yn adrodd ymhellach ei fod wedi derbyn ymateb heddiw (08.02.2021) gan Llywodraeth Cymru yn cadarnhau fod y Gweinidog a Swyddog Un Llais Cymru wedi edrych ar y Cais ac wedi ei gymeradwyo ar gyfer benthyciad arian.
Clerc yn rhoi gwybod i'r Aelodau mai dyddiad cau i roi Tendr i'r Gwerthwyr Tai ydyw Dydd Iau 11eg o Chwefror 2021. Mwy o drafodaeth o dan Eitem 20/085 o'r Rhaglen .

PARHAD 20/079

2 **(a) Cae Criced -** Clerc yn datgan fod dim diweddariad i'w adrodd yn ôl ers Cyfarfod Llawn Mis Ionawr, a gyda thristwch mae Cyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr wedi cael profedigaeth o golli ei Dad, ac felly ddim yn gweithio llawn amser ar hyn o bryd.
(b) Tir Tu Cefn i'r Llys - Dim diweddariad i ateb yn ôl ers Cyfarfod Llawn Mis Ionawr.
(c) Gardd Glöyn Byw, Nant y Pandy - Clerc yn adrodd ei fod wedi derbyn diweddariad gan Gydlynydd y Prosiect yn cadarnhau fod y gwaith garddio, sydd wedi eu hariannu trwy daliad grant, wedi eu cwblhau yn Faes Chwarae Nant y Pandy.
Yn anffodus ar ôl gwneud yr holl waith, o fewn dyddiau fandaleiddiwyd yr Ardd Glöyn Byw, gyda'r planhigion wedi eu dinistrio a'i thaflu ym mhobman, a'r gwaith coed wedi eu chwalu.
Cyng. Dylan Rees yn datgan tristwch ar hyn sydd wedi digwydd a'i fod wedi cysylltu gydag Arweinydd Grŵp Ffrindiau Nant y Pandy i drafod y ffordd ymlaen, ac adroddwyd y difrod i'r PCSO's lleol. Fel a ganlyn :

- PCSO's am batrolio'r ardal;
- Ystyried Datganiad i'r Wasg ;
- Arweinydd Grŵp Nant y Pandy yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i godi proffil.

Cadeirydd yn datgan ei siom am y difrod i'r Ardd Glöyn Byw ac awgrymu efallai ystyried newid y lleoliad i lecyn distawach lle fuasai'r Ardd yn cael llonydd.

20/080 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

1 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn - 21.01.2021 -** Cyng. Margaret Thomas wedi ymddiheuro.

2 **Cyngor Sir Ynys Môn - Cyfarfod Y Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned -** dyddiad i'w drefnu.

20/081 CYLLID

I Dderbyn Mantolen Ariannol – Ionawr 2021

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.
Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod.
Cyng. Ieuan Davies yn Cynnig a Cyng. Non W. Parry yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol.
PENDERFYNWYD derbyn y Fantolen Ariannol Mis Ionawr 2021.

20/082 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyng. Dylan W. Rees, Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :

- Ysgolionmon – Ymgynghoriad Statudol Ardal Llangefni Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn wedi dod i ben – Bydd Ysgol Talwrn yn cau/Cynyddu Ysgol y Graig;
- Pwyllgor Gwaith yn datgan bydd Ysgol Newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Ysgol;

- Treth Cyngor Sir Ynys Môn - Codiad o 3.75 % : Cyflwyno i'r Pwyllgor Scrutiny mis Chwefror ac wedyn o flaen y Cyngor Llawn;
- Cwrs Golff, Llangefni – Adroddiad i'r Pwyllgor Scrutiny ;

PARHAD 20/082

- COVID-19 - Bregus iawn ar Ynys Môn - 3ydd ffigwr uchaf trwy Gymru gyda 1 achos o'r "Variant De Affrica", oherwydd teithio;
- Cyngor Sir Ynys Môn wedi rhoi hysbysebid cosb benodedig cyntaf o £1,000.00 i adwerthwr sydd ddim wedi cydymffurfio gyda rheolau COVID-19; Staff Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud eu gorau yn y cyfnod bregus yma.

20/083 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

1 Cysylltu â'ch Cymunedol Leol - Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod – Dogfen wedi ei anfon i'r Aelodau – Dim Trafodaeth.

2 Cynllun Lliniaru Llifogydd Bron y Graig, Llangefni – E-bost 27.01.2021 – Cyngor Sir Ynys Môn - Dim Trafodaeth.

20/084 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH : Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Ionawr 2021**

1 **Un Llais Cymru** - **Derbyn**

2 **Materion Eraill** - **Derbyn .**

20/085 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**

1 **Mynwent Newydd – Prynu Tir**

Cadeirydd yn datgan fod y Cais i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo benthyciad arian gan y Public Works Loan Board, ar gyfer prynu tir i ddatblygu Mynwent Newydd, wedi bod yn llwyddiannus. Clerc wedi derbyn cadarnhad o hyn prynhawn heddiw, 8fed Chwefror 2021, mewn amser i roi cynnig i mewn am y tir erbyn hanner dydd, ar 11.02.2021.
Clerc yn arwain yr Aelodau trwy gefndir y Cais uchod ac yn datgan mae'n fater brys cael Mynwent Newydd i'r dref, oherwydd bod dim ond 9 Plot ar ôl yn Fynwent Lon Newydd.
Clerc yn datgan ei fod wedi cysylltu gyda Chwmni Cemetery Development Services(CDS) sydd wedi cadarnhau fod y tir o dan y cynllun uchod yn addas ar gyfer Mynwent ... "Out of the three parcels of land discussed, this one is definitely the most suitable as the other parcels of land have no superficial deposits mapped and would likely have shallower bedrock."
Gwybodaeth bellach gan y Clerc yn cadarnhau fod y Gweinidog wedi arwyddo'r Cais ac fod barn Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud a materion Priffyrdd a Chynllunio wedi eu derbyn a dim yn rhagweld problemau. Cyngor Sir Ynys Mon am gefnogi'r Cyngor Tref i symud ymlaen, oherwydd bod dim tir addas arall ar gael o fewn dalgylch y Dref.
Cyng. Victor Hughes yn adrodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Chwmni e-geo Solutions Ltd., ac wedi anfon y wybodaeth ymlaen i'r Swyddfa yn ymwneud ac ystyried adolygu lefelau dwr daear yn Fynwent Lon Newydd, a monitor tyllau turio unwaith eto, os bu'r opsiwn i brynu tir ddim yn llwyddiannus. Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Chwmni e-geo Solutions Ltd., i gadw opsiynau yn agored.
Yn dilyn trafodaeth yn ymwneud a'r opsiwn i brynu tir i ehangu'r Fynwent, Clerc yn rhoi gwybodaeth ganlynol ymlaen i'r Aelodau :

- Ffigwr Canllaw am y Tir £400,000.00;
- Llog Ad-daliad o £12,400 y flwyddyn dros gyfnod o 50 mlynedd;
- Incwm o'r Fynwent yn flynyddol oddeutu £8,500;
- 2 Erw i ddatblygu'r Fynwent - 34 Erw ar ôl i'w osod allan - Incwm ychwanegol oddeutu £7,500. **(Cyfanswm £16,000)**

PARHAD 20/085

Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw at gostau ychwanegol cyn dechrau claddu fel a ganlyn :

- Cost darparu'r tir ar gyfer Mynwent Newydd;
- Ystyried cost o godi wal derfynol gerrig/ffensio;
- Creu mynedfa addas gyda lle parcio;
- Tarmacio llecyn;
- Broses o wneud profion dwr, tyllau turion, a.y.b.

Yn dilyn yr uchod, bu cyfle i'r Aelodau roi mewnbwn i'r drafodaeth, fel a ganlyn :
Cyng. J. Huw Owen yn holi am leoliad y Fynwent o fewn y tir a hefyd os bydd Cwmni e-geo Solutions yn ymchwilio'r tir i ddatrys y dyfnder gorau.
Cadeirydd yn ymateb ei fod wedi cysylltu gyda Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon i ofyn am gymorth datblygu a chynllunio a bod yn ddyletswydd arnynt i gyd-weithio gyda'r Cyngor Tref ar hyn.
Cyng. Ieuan G. Davies yn diolch am y gwaith yn ymwneud a'r ddau opsiwn ac yn cydnabod fod safon y Cais i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo yn uchel, ac yn gefnogol i symud ymlaen a rhoi Bid i mewn am y tir.
Cadeirydd yn cytuno gyda Cyng. Davies.
Cyng. Victor Hughes yn datgan ystyried y gost ychwanegol oddeutu £50,000.00 i baratoi'r safle, fel y nodwyd uchod .
Oherwydd brys y mater, Cadeirydd yn awyddus i ddod i benderfyniad heno, ac yn cadarnhau ei bod yn ymwybodol o'r costau ychwanegol yn ymwneud a'r gwariant.
Cyng. Non W. Parry yn awgrymu rhoi Bid i mewn am y tir erbyn Dydd Mercher 10.02.2021.
Clerc yn gofyn am gefnogaeth yr Aelodau i roi cynnig o £400,100.00, sef yr uchaf mae'r Cyngor Tref am gynnig am y tir, sef oddeutu £11,000.00 yr Erw.
Cyng. Christine Roberts yn cynnig fod yr Aelodau yn derbyn y ffigwr uchod a chyrraedd penderfyniad.

Yn dilyn yr uchod **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i roi cynnig o £400,100.00 erbyn Dydd Mercher 10.02.2021, drwy Dendr, am y tir i ehangu'r Fynwent o fewn dalgylch y Dref.

Cyng. Terry Jones yn diolch i'r Clerc am ei holl waith i ddod a'r Pecyn Busnes at ei gilydd. Clerc yn cydnabod fod hyn wedi bod yn llawer o waith ychwanegol iddo, ac yn cyfeirio at gefnogaeth Staff y Swyddfa a Cyng. Margaret Thomas, i ddod a hyn i gyd at ei gilydd.

2 **Ystafell 109 Neuadd y Dref – Cwmni Chief Properties Ltd.**

Cyng. J. Huw Owen yn holi os ydi'r cytundeb ariannol gyda'r Cwmni uchod wedi dod i ben. Clerc yn cadarnhau fod y "Deed of Surrender" yn ymwneud ac Ystafell 109, Neuadd y Dref, wedi ei arwyddo a'r arian wedi ei drosglwyddo, a'r Ffeil wedi ei chau.

20/086 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :** Nos Lun 8fed o Fawrth 2021, trwy gyfrwng TEAMS.

CYNGHORYDD MARGARET THOMAS

CADEIRYDD